# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28 Tachwedd 2023 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Elin Walker-Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**
Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**
Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn 2023-24 yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd; ac amlinelliad o ble mae'r adran arni gyda'u mesurau perfformiad; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Pwrpas Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd ydi sicrhau ein bod yn gwneud y gorau gallwn i roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei fesur drwy'r Herio a Chefnogi Perfformiad. Mae'n bwysig i'r Gwasanaeth bod lleisiau a phrofiadau unigolion o Wynedd sydd yn defnyddio ein Gwasanaethau yn gwneud yn siŵr bod profiadau gorau yn cael ei roi i bobl Gwynedd.

1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth drwy Gynllun y Cyngor yn symud ymlaen, sef y Cynllun Awtistiaeth a'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan.

**2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD**

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael â phrif risgiau'r adran. Yn gyffredinol teimlaf fod bob prosiect yn gwneud cynnydd yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.

2.2 Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan

Rydym am wella profiadau'r plant sydd yng ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. Erbyn hyn mae ymweliadau eiddo wedi cymryd lle er mwyn symud y prosiect yn ei flaen a thŷ yn cael ei ystyried. Yn ogystal â hyn mae darn o dir mewn ardal arall o Wynedd yn cael ei ystyried i adeiladu tŷ ar gyfer y pwrpas Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan. Bydd grŵp prosiect yn cael ei sefydlu yn y flwyddyn newydd fydd yn cynnwys Adran Plant, Tai ac Eiddo, Addysg a'r Gwasanaeth Iechyd. Mae £50,000 yn ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r prosiect yn ddiweddar o danwariant cronfa RIF. Bydd angen ffurfio Datganiad o Bwrpas erbyn diwedd y flwyddyn a chychwyn paratoi cais cofrestru.

2.3 Cynllun Awtistiaeth

Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei angen arnynt. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau. Mae'r tîm bellach yn gyflawn gydag Ymarferydd, Gweithiwr Cymdeithasol a 4 Gweithiwr Allweddol. Mae fforwm wedi ei sefydlu ar gyfer edrych ar y cyfeiriadau sydd yn dod mewn. Mae cydweithio yn amlasiantaethol yn digwydd yn gyson gyda'r Tîm Niwroddatblygiadol am y llwybr cyfeirio at y tîm. Yn ogystal â chydweithio gydag Iechyd a Thîm Derwen yn trefnu digwyddiadau ar gyfer rhieni plant sydd ag awtistiaeth, yn aros am ddiagnosis neu sydd ag anghenion ychwanegol nad ydynt yn agored i unrhyw wasanaethau arbenigol h.y. Derwen. Roedd hefyd gwybodaeth am lansiad y Gwasanaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda nifer o unigolion, rhieni a gofalwyr awtistig yn holi cwestiynau am beth mae'r tîm yn ei gynnig. Mae nifer o staff y Cyngor bellach wedi cael y cyfle i fynd ar y Bws Profiad Realiti Awtistiaeth sydd yn rhoi profiad tebyg i sut mae unigolyn gydag Awtistiaeth yn gweld y byd o'u cwmpas. Gyda chyrsiau hyfforddiant mae yn ofynnol i staff Cyngor Gwynedd gwblhau hyfforddiant lefel 1 a 2 Awtistiaeth.

## 3. PERFFORMIAD A MESURAU

3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud â'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar berfformiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i ni.

3.2 Capasiti'r Gweithlu - Mae'r sefyllfa gweithlu yn parhau yn fater o bryder difrifol. Drwy'r prosiect Cynllunio'r Gweithlu a Gofalwn Cymru rydym wedi dechrau rhoi ar waith ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu. Wrth fod y pryder yn un difrifol mae gwaith ar y gweill i drio sefydlogi'r sefyllfa at y dyfodol. Mae'r adran yn cyd-weithio gyda Grŵp Llandrillo Menai drwy fynychu digwyddiadau wythnos y glas yn Nolgellau ac ym Mhwllheli. Hefyd bydd ymweliadau gyda myfyrwyr Iechyd a Gofal i sôn am gyfleoedd yn y maes Gofal a hefyd i hyrwyddo'r cynnig profiad gwaith a sefydlwyd llynedd. Trefnwyd 70 o leoliadau ar gyfer profiad gwaith yn dilyn newidiadau i'r pecyn ar draws y gwasanaeth plant ac

oedolion. Mae 50 wedi bod eisoes am brofiad gwaith ac allan o'r 10 yno maent wedi cael swyddi achlysurol gyda'r Adrannau. Mae cyflwyniad wedi cael ei roi i Gynghorwyr am y sector Gofal a recriwtio i'r sector yn benodol. Mae hyn ar gyfer amlygu rhai o'r rhwystrau, beth sydd yn mynd ymlaen eisoes, pa gynlluniau sydd ar y gweill i'r dyfodol a beth all Gynghorwyr wneud i helpu wrth symud ymlaen.

3.3 Y galw a'r math o gefnogaeth - Mae'r adran yn parhau i weld fod natur yr achosion sydd yn cael eu cefnogi yn arddangos fod anghenion plant yn gymhleth, yn dwysau, eu bod angen pecyn cefnogaeth a phecynnau gofal eang, cynhwysfawr ac arbenigol iawn. Mae niferoedd sydd yn agored i dimau wedi codi. Mae niferoedd sydd yn agored i'r Tîm Ôl 16 ar ei uchaf erioed, sef 210 o achosion. Mae nifer o alwadau a chymorth wedi selio ar ddigartrefedd yn cynyddu. Felly mae'r adran yn cydweithio yn dda gyda'r Tîm digartrefedd ond mae darganfod llety sydd yn addas yn anodd. Mae nifer o geiswyr lloches wedi cynyddu yn sylweddol. Ar hyn o bryd mae 26 o bobl ifanc yng ngofal Cyngor Gwynedd sydd yn geiswyr lloches. Yn ddiweddar mae'r cyfeiriadau yr ydym yn ei dderbyn ar gyfer plant o dan 16 oed sydd angen eu lletya mewn gofal maeth ac mae hyn yn profi yn her anodd iawn i'r Adran i ddarganfod llety addas ar eu cyfer.

3.4 Mae'r niferoedd sy'n cysylltu am Wybodaeth, Cyngor neu Gefnogaeth yn parhau i fod yn sylweddol uwch nag oeddent cyn y pandemig. Daeth 1,894 i gyswllt â ni rhwng Gorffennaf a Medi 2023. Rydym o'r farn fod effeithiau'r pandemig yn parhau i yrru'r galw, ynghyd â'r argyfwng costau a'r straen ar deuluoedd o ganlyniad yn cyfrannu tuag at yr angen am gefnogaeth.

3.5 Rydym wedi bod yn rhan o ymgyrch maethu cenedlaethol Maethu Cymru i ddenu pobl i feddwl am faethu. Mae'r ymgyrchoedd yma yn un o'r ffyrdd yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â sicrhau digon o leoliadau gofal yn lleol i blant pe bai angen iddynt ddod i ofal. Mae stondinau maethu wedi mynychu'r Sioe Frenhinol ac yr Eisteddfod ym Mhenllyn dros yr Haf. Cynhaliwyd Panel 'Cyflogwyr Cyfeillgar' gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, Y Cynghorydd Elin Walker Jones, Llŷr Roberts, Prif Weithredwr Menter a Busnes a dau o ofalwyr maeth o Wynedd a fu'n trafod eu profiadau o gyfuno maethu a gweithio fel rhan o'n hymgyrch i ddenu mwy o gyflogwyr i fod yn 'Gyfeillgar i faethu'. Hefyd cynhaliwyd Sgwrs o'r Galon fel rhan o ddiwrnod 'Gwynedd Ofalgar' yn yr Eisteddfod yng nghwmni 2 gynghorwr Gwynedd a 5 o ofalwyr maeth o Wynedd a fu'n rhannu eu profiadau personol o faethu yn onest ac yn agored o flaen cynulleidfa byw. Roedd nifer o fusnesau lleol ym Mhwllheli wedi arddangos baneri a phosteri Maethu Cymru Gwynedd a'n helpu i ledaenu'r neges am faethu tra roedd yr Eisteddfod ymlaen. Yn ystod Mis Medi roedd Lansiad Ap 'Care Friends' sef rhaglen cyfeirio newydd ("argymell ffrind") sy'n gwobrwyo ein gofalwyr maeth pan fyddant yn rhannu gwybodaeth am faethu gyda'u cysylltiadau ac yn eu hannog ar hyd eu taith i fod yn ofalwyr maeth. Mae cyfle iddynt gasglu pwyntiau bob tro y byddant yn cyfeirio rhywun atom gyda'r pwyntiau'n trosglwyddo i arian parod i'w helpu gyda chostau bob dydd.

3.6 O ran mesurau'r adran, rwyf ar y cyfan yn hapus gyda'u perfformiad. Nid oes unrhyw fesurau ar hyn o bryd yn peri pryder i mi ond byddaf yn cydweithio gyda'r Pennaeth drwy drefniadau arferol herio perfformiad.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

4.1 Mae cyfanswm Cynlluniau Arbedion 23-24 ar gyfer yr adran o £44,010 ac mae'r cyfan wedi eu gwireddu.

4.3 Ar gyfer 2023/24, fel rhan o'r drefn bidiau, mae'r Adran wedi derbyn £130,000 fel bid un-tro tuag at barhau i gyflogi 3 ymarferydd gofal cymdeithasol. Mae'r swyddi wedi arfarnu a phenodiadau wedi gwneud a swyddogion mewn lle. Mae bid i wneud y swyddi yn barhaol wedi cael ei roi ar gyfer 24/25. Yn ogystal mae 5 bid arall wedi ei roi mewn ar gyfer 2024/25 a byddwn yn cael gwybod canlyniad diwedd Mis Ionawr.

## 5. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Plant a Chefnogi Theuluoedd.

a. **Barn yr Aelod Lleol:**

   i. Ddim yn fater lleol.

b. **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

   i. Dim i'w nodi.

---